Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 26 Medi 2013**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk


## Agenda
Cyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Papurau i'w nodi (Tudalennau 1 - 6)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11, 17 a 24 Gorffennaf

**Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd – Camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod ar 24 Gorffennaf** (Tudalennau 7 - 10)

E&S(4)-22-13 papur 1

**Cynlluniau datblygu lleol a ffigurau poblogaeth/aelwydydd – Ymateb gan y Gweinidog Tai ac Adfywio** (Tudalennau 11 - 12)

E&S(4)-22-13 papur 2

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 5, 6 a 7 ac ar gyfer y cyfarfod ar 2 Hydref

**Sesiwn breifat**

**4 Rheoli Tir Cynaliadwy – Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad**
(Tudalennau 13 - 154)

**5 Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru: Adroddiad dilynol – Trafod yr adroddiad drafft** (Tudalennau 155 - 163)

**6 Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin**
(Tudalennau 164 - 169)

**7 Ymchwiliad i wastraff ac adnoddau – Trafod y cylch gorchwyl**
(Tudalennau 170 - 177)

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 11 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | 09:30 - 14:39 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_11_07_2013&t=0&l=cy
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400001_11_07_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

**Aelodau'r Cynulliad:**

Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)
Mick Antoniw
Russell George
Llyr Huws Gruffydd
Julie James
Julie Morgan
William Powell
Antoinette Sandbach
Joyce Watson

**Tystion:**

Dilwar Ali, Deisebwr - Cefnogi'r Bil Rheoli Cŵn (Cymru)
Sarah Brown, Cyngor Caerdydd
Sally Burnell, Cymdeithas Milfeddygol Prydain
Kate Cassidy, Llywodraeth Cymru
Andrew Charles, Llywodraeth Cymru
Jeff Cuthbert AC, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Gavin Grant, RSPCA Cymru
Dave Joyce, CWU
Gareth Pritchard, ACPO Cymru
Dermot Ryan, Cynrychiolydd Parhaol Iwerddon i'r UE
Rhodri Glyn Thomas AC, Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau

| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson (Clerc)<br>Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)<br>Nia Seaton (Ymchwilydd)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd)<br>Chloe Corbyn (Ymchwilydd) |
|---|---|

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vaughan Gething ar ôl iddo gael ei benodi yn Ddirprwy Weinidog i Lywodraeth Cymru.

## 2 Craffu ar waith y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

2.1 Bu'r Gweinidog a'i swyddogion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 3 Cymorth y wladwriaeth ar gyfer pysgodfeydd a dyframaethu - Trafodaeth gyda Rhodri Glyn Thomas AC

3.1 Bu Rhodri Glyn Thomas yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5 Cynigion i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin - trafodaeth ar y sefyllfa diweddaraf

5.1 Bu Dermot Ryan yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 6 Deddfwriaeth rheoli cŵn - Trafodaeth bwrdd crwn

6.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 7 Papurau i'w nodi

7.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09:30 – 12:35** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_17_07_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Russell George<br>Llyr Huws Gruffydd<br>Julie James<br>Julie Morgan<br>William Powell<br>Antoinette Sandbach<br>Joyce Watson |
| Tystion: | Ed Bailey, NFU Cymru<br>Gareth Cunningham, RSPB Cymru<br>Dr Clare Eno, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Sue Evans, Cymdeithas y Tirfeddianwyr<br>Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Brian Pawson, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Jeremy Percy, New Under Ten Fishermen's Association<br>Joanne Sherwood, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Euan Dunn, RSPB Cymru<br>Emma Hockridge, Cymdeithas y Pridd |
| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson (Clerc)<br>Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)<br>Nia Seaton (Ymchwilydd) |

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro

1.1 Cafodd William Powell ei ethol yn Gadeirydd dros dro.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas a Vaughan Gething ar ôl iddo gael ei benodi yn Ddirprwy Weinidog yn Llywodraeth Cymru.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin - Trafodaeth

3.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd Nick Fenwick i ddarparu copi o'r ffigurau a gynhyrchwyd gan Brifysgol Bangor ynghylch incwm o dwristiaeth bywyd gwyllt.

3.3 Cytunodd Nick Fenwick, Brian Pawson ac Arfon Williams i ddarparu rhagor o wybodaeth yn ysgrifenedig am incwm a gollwyd mewn perthynas â chynlluniau amaeth-amgylcheddol.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin - Trafodaeth

4.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

4.2 Cytunodd Jeremy Percy i ddarparu copi o'r nodyn a gynhyrchodd ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch bysgodfeydd ar raddfa fach

## 5 Papurau i'w nodi

### Polisi dŵr yng Nghymru - Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

5.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 7, 8, 9 a 10

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y busnes a drefnwyd ar gyfer y sesiwn breifat drwy e-bost.

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Canolfan CFfI, Sioe Frenhinol Cymru** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 24 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **10:29 - 11:21** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800000_24_07_2013&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:
Sioe Frenhinol Cymru

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**Julie Morgan**<br>**William Powell**<br>**Antoinette Sandbach**<br>**Keith Davies** |
| Tystion: | **Alun Davies, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**<br>**Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru**<br>**Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Nia Seaton (Ymchwilydd)**<br>**Elfyn Henderson (Ymchwilydd)** |

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James, Joyce Watson a Mick Antoniw.

1.2 Roedd Keith Davies yn bresennol fel dirprwy.

## 2 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Craffu cyffredinol

2.1 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor ym mis Medi gyda manylion ei waith ar ddangosyddion bioamrywiaeth.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda gwybodaeth am hybu bwyd.

**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/AD-/0754/13

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Cadeirydd Y Pwyllgor Amgylchedd a
Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

7 Awst 2013

Annwyl Dafydd,

**Sioe Frenhinol Cymru 2013 – cwestiynau a godwyd**
**Rheoli Cŵn**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Gorffennaf. Rwyf yn ymateb yn benodol i'r cwestiynau ynglŷn â rheoli cŵn a ofynnwyd gennych yn y llythyr hwnnw ac yn ymateb hefyd i'ch cais am ateb erbyn 2 Awst. Mae'n siŵr y byddwch yn deall nad oedd modd ateb cyn i'r Pwyllgor gyfarfod ar 24 Gorffennaf.

Wrth ateb, rydym wedi cyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau penodol a godwyd gennych, fel a ganlyn:

- "Mae paragraff 31 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi mai barn Llywodraeth Cymru yw bod darpariaethau Rhan 7 o'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona ("y Bil") o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Ymddengys nad yw Llywodraeth y DU o'r un farn (Gweler paragraff 86 o'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil). A allwch chi gadarnhau:

- **a) A ydych wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â Chŵn Peryglus;"**

Ydw. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU. Yn fy marn i, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r polisi a amlinellwyd ar gyfer ein Bil arfaethedig ar Reoli Cŵn (Cymru).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

- **b) A fydd y cynnig yn ceisio cydsyniad mewn perthynas â Chymal 99 o'r Bil, a ddrafftiwyd mewn ymateb i ddyfarniad *Sandhu*. Er bod y Memorandwm yn cyfeirio at Adran 7 o'r Bil, nid oes unrhyw sôn am adran 99**;

Gallaf gadarnhau bod y cynnig, fel y'i cyflwynwyd gyda'r memorandwm ar 23 Mai, eisoes yn ceisio cydsyniad mewn perthynas â'r holl ddarpariaethau yn Rhan 7 o'r Bil. Fodd bynnag, rydych yn llygad eich lle wrth ddweud nad oes unrhyw gyfeiriad penodol at Gymal 99 yn y memorandwm.

Fel y dywedasoch, drafftiwyd Cymal 99 mewn ymateb i ddyfarniad Sandhu a oedd yn ymwneud ag ailgartrefu bridiau cŵn a waharddwyd o dan adran 1 o Ddeddf Cŵn Peryglus 1991. Mae'r Cymal yn nodi'r prawf y mae'n rhaid i'r llysoedd ei ddefnyddio wrth ystyried Gorchmynion Difa yn dilyn collfarn o dan y Ddeddf. Byddaf yn cyflwyno memorandwm diwygiedig er mwyn egluro bod Cymal 99 yn un o'r darpariaethau yr ydym yn ceisio cydsyniad mewn perthynas ag ef.

- **c) A ydych o'r farn bod gan y Cynulliad y cymhwysedd angenrheidiol i gyflwyno esemptiad mewn perthynas ag "achos yn ymwneud â deiliad tŷ", megis yr un yng Nghymal 98 (2) (b) o'r Bil;**

Ydw, mae Cymal 98(2)(b) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â phynciau a restrir o dan benawdau 1 (Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig), 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd) a 15 (Lles cymdeithasol).

- **d) Pam yr ydych o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth ar wahân?**

Fel y dywedais yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 2 Mai, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn delio'n effeithiol â chŵn sy'n beryglus ac allan o reolaeth. Rydym wedi ymrwymo i greu fframwaith statudol a fyddai'n ei gwneud yn anghyfreithlon i gŵn fod allan o reolaeth ac yn beryglus ar safleoedd preifat. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddiogelu cŵn cymorth, er enghraifft cŵn tywys a chŵn clywed, yn ogystal â threfn statudol i ddiogelu lles cŵn a hyfforddi cŵn.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus sut orau mae cyflawni'r amcanion hyn er mwyn amddiffyn ein plant, ein teuluoedd a'n cymunedau'n well. Rwyf wedi ymrwymo hefyd i newid diwylliant yn y tymor hir. Ni all deddfwriaeth ar ei phen ei hun wneud hynny ond bydd yn mynd at wraidd y broblem drwy annog perchenogion cŵn i fod yn berchenogion cyfrifol.

Mae'n trafodaethau gydag awdurdodau gorfodi a sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru wedi dangos y byddai'n llawer gwell gan y rheini sy'n gorfodi'r gyfraith ymyrryd yn gynnar er mwyn atal digwyddiadau angheuol a/neu unrhyw berygl i les y ci. At hynny, mae Bil drafft y Swyddfa Gartref ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona bellach yn cynnwys y diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 a nodwyd yn ein Bil drafft.

Rwyf wedi edrych ar ddarpariaethau'r Bil drafft ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ac, er fy mod yn derbyn nifer o'r sylwadau sy'n beirniadu'r bil drafft, rwyf, er hynny, yn grediniol y gallai fod yn ffordd ddefnyddiol o wireddu'n huchelgais. Mae'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona wedi'i gyflwyno gerbron Senedd y DU erbyn hyn, a byddaf yn parhau i weithio

mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU ar y mater hwn er mwyn sicrhau cysondeb wrth reoli cŵn ar draws Cymru a Lloegr (o gofio bod cŵn a'u perchnogion yn teithio ar draws ffiniau). Byddaf hefyd yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd yr agweddau a ganlyn:

- bod rheoli cŵn yn briodol yn cael effaith ar eu lles;
- bod gan berchnogion cŵn gyfrifoldebau;
- ei bod yn werth llunio canllawiau y gellid eu defnyddio yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd.

Fel rhan o'r cydweithio agos â Llywodraeth y DU, cafodd cyfarfod ei gynnal yng Nghaerdydd ar 22 Gorffennaf 2013 rhwng swyddogion yn cynrychioli Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a DEFRA, grŵp bach yn cynrychioli awdurdodau lleol Cymru a Lloegr, swyddog arweiniol Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ar gŵn peryglus, a rhai o aelodau heddluoedd Cymru a Lloegr. Cadeiriwyd y cyfarfod hwnnw gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru, a'i ddiben oedd sicrhau bod y canllawiau sydd wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer y rheini a fydd yn gorfodi'r gyfraith yn rhai priodol, ac y byddant yn addas at ddibenion Cymru a Lloegr fel ei gilydd.

Yn y cyfamser, rwyf yn cadw'r opsiwn o gyflwyno Bil ar gyfer Cymru.

Gobeithio y bydd yr ymatebion hyn o gymorth i chi.

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/CS/3772/13

Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, AC
Cadeirydd – Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Medi 2013

Annwyl Dafydd

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
**Cynlluniau Datblygu Lleol – Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Awst ynghylch argymhellion Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gyfer defnyddio rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Da yw deall eich bod yn cytuno ei bod hi'n bosibl i awdurdodau cynllunio lleol (ACLl) Cymru lunio eu rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd eu hunain. Mae'r ffaith eich bod chi fel Pwyllgor yn cymeradwyo hyn yn dilysu'r polisi cyfredol sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu gwyro oddi wrth ein rhagolygon ar boblogaeth ac aelwydydd diweddaraf ni, cyn belled â bod hygrededd i'w tystiolaeth a bod yr wybodaeth yn gadarn. I helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i drafod y gofyn am dai yn eu Cynllun Datblygu Lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ar gyfer pob awdurdod lleol Cymru y model a'r data fu'n sail i'r rhagolygon diweddaraf.

O ran y ddau argymhelliad a nodwch yn eich llythyr, mae'r ddau yn gysylltiedig â'r ffordd yr ymdrinnir â phroblemau cynllunio trawsffiniol trwy'r Bil Diwygio Cynllunio arfaethedig (Argymhelliad 1) ac amrywiadau posibl i'r ffordd y mae rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd (Argymhelliad 2) yn cael eu hystyried.

O ran Argymhelliad 1, bydd dau bapur yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni – y Papur Ymgynghori a'r Bil Diwygio Drafft ar gyfer Cynllunio. Mae llawer o dystiolaeth yn sylfaen i'r ddau bapur yn ogystal â thystiolaeth o Adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG). Yn wir, fe nodir yn adroddiad IAG bod angen trefn ehangach na'r Cynllun Datblygu Lleol i ymdrin â materion yn ymwneud â thrawsffinio. Er enghraifft, awgrymir bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi'r ddarpariaeth tai yn unigol ac ar y cyd. Bydd y mater hwn ymhlith nifer o faterion fydd yn cael sylw yn y Bil drafft a'r papur ymgynghori. Tuag at ddiwedd 2014, byddaf yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar sut y byddwn yn ymdrin â'r problemau hyn, fel y nodwch yn eich llythyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn ail, mae Argymhelliad 2 yn codi cwestiynau nad ydynt yn ymwneud â'm portffolio i. Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid sy'n gyfrifol am gyhoeddi rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru. Mae 15 cyfarfod cyhoeddus wedi cael eu cynnal ar CDLl ac roedd cryn drafod ac archwilio ar y cwestiynau am elfennau'r model ar gyfer rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd; roedd hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor. Mae swyddogion o'r Is-adran Gynllunio ac ystadegwyr Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru yn llwyr ymwybodol o'r problemau hyn, yn enwedig amserau'r setiau data penodol a ddefnyddir yn y fethodoleg.

Cyhoeddwyd Rhagolygon Poblogaeth ar gyfer Cymru (a sail 2011) yr awdurdodau lleol ar 23 Gorffennaf 2013. Yn dilyn ystyriaeth gan weithgor technegol, maen nhw wedi'u seilio ar ddata ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mewnfudiadau yn y cyfnod 5 mlynedd hyd at ganol 2011. Disgwylir cyhoeddi rhagolygon pellach (wedi'u seilio ar 2011) ddiwedd mis Medi. Bydd y rhagolygon yn cynnwys amrywiolyn ar dueddiadau amser hirach ar gyfer mewnfudo.

Bydd grŵp technegol, sy'n cynnwys dwy set o swyddogion ac arbenigwyr o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i ystyried y ffordd ddoethaf yn ystadegol o symud ymlaen yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bod ystadegau unrhyw gynigion yn gadarn a byddaf, fel y nodwch yn eich llythyr, wedi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y dadansoddiad technegol hwn erbyn diwedd 2014.



**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon